



Meini Prawf ar gyfer y Gwobrau:

Gwobr	Meini prawf
Aelod Staff Myfyrwyr y Flwyddyn	Nid staff yn unig sy'n darparu gwasanaethau yma yn y Brifysgol. Mae'r wobr hon yn cydnabod y myfyrwyr hynny sy'n darparu gwasanaethau rhagorol ac yn helpu i fywiogi'ch diwrnod, naill ai o fewn adrannau, lletygarwch, neuaddau preswyl neu'r ganolfan chwaraeon.
Darlithydd y Flwyddyn	Cyflwynir y wobr hon i ddarlithydd sy'n gwneud cyfraniad arwyddocaol at brofiad academiaidd myfyrwyr, boed ar ffurf ysbrydoli myfyrwyr drwy fod yn angerddol ynglŷn â'r pwnc, ysbrydoli'r ddarlithfa neu fynd y filltir ychwanegol i sicrhau bod eich dosbarthiadau'n ennyn diddordeb. Bydd yr unigolyn yma'n ymgorffori beth mae'n ei olygu i gael addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth.
Aelod Staff Ategol/Gwasanaeth y Flwyddyn	Nid yw eich profiad yn y brifysgol yn gyfyngedig i'ch darlithoedd. Mae'r wobr hon yn rhoi cydnabyddiaeth i'r aelodau hynny o gymuned y brifysgol sy'n darparu cymorth eithriadol neu'n cyfoethogi eich profiadau y tu allan i'r ystafell-ddosbarth. Gall fod hwn y porthor sy'n delio â'ch cwyn am sŵn, neu'r barista yn Tamed Da sy'n darparu eich latte am 9 o'r gloch y bore.
Cynrychiolydd Academiaidd y Flwyddyn	Mae'r wobr hon yn cydnabod Cynrychiolydd Academiaidd sydd wedi bod yn weithgar gydol y flwyddyn. Maen nhw'n lleisio barn myfyrwyr ar eu cwrs, yn mynychu Pwyllgorau Ymgynghorol Staff Myfyrwyr yn rheolaidd, yn adborthi gwybodaeth i'w cyd-fyfyrwyr gan ddangos sgiliau trefnu a rhyngbersonol rhagorol.
Myfyriwr-wirfoddolwr y Flwyddyn	Fe'i dyfernir i unigolyn y mae eu gwaith gwirfoddol wedi cael effaith glir a diriaethol ar eu grŵp, eu prosiect neu eu hachos. Byddant wedi dangos lefel uchel o ymrwymiad a bod yn fodel

	rôl cadarnhaol ar gyfer gwirfoddoli myfyrwyr ac UMAber.
Gwobr Llywio Aber	Mae'r wobwr hon yn cydnabod cyfraniad myfyrwyr sydd wedi helpu i wneud gwahaniaeth yn y brifysgol neu'r gymuned leol. Gallai fod yn fyfyrwr sydd wedi helpu i wella profiad myfyrwyr drwy gynrychioli eu cyfoedion, cymryd rhan mewn gweithredu cymunedol neu ymgychu dros newid.
Myfyrwr-fentor y Flwyddyn	Mae'r wobwr hon yn cydnabod rôl bwysig mentoriaid wrth gynnig cymorth i fyfyrwyr, gan helpu i'w hysbrydoli a'u cymell drwy gydol eu cwrs. Mae mentoriaid da yn dangos empathi â'r rheiny maent yn eu mentora, gan ddarparu amgylchedd sy'n annog cwestiynau, ac maent yn meddu ar wybodaeth am eu hadran ac amrywiaeth o wasanaethau'r brifysgol.
Goruchwyliwr y Flwyddyn	Wedi'i ddyfarnu i oruchwyliwr israddedig neu ôl-raddedig sy'n cynnig goruchwyliaeth ragorol fel rhan o brosiect, traethawd estynedig neu draethawd ymchwil. Gallai hyn fod ar ffurf darparu cymhelliant, adborth ac arweiniad eithriadol sy'n helpu i roi cyfeiriad clir i'ch gwaith. Efallai y byddant hefyd yn ysbrydoli angerdd yn eich maes astudio sy'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol neu ymchwil pellach.
Adran y Flwyddyn	Mae'r categori hwn yn cydnabod adran (neu Athrofa) sydd wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol eithriadol i brofiad academaidd ei myfyrwyr. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu amgylchedd croesawus ynghyd â safon uchel o ran dysgu, addysgu a chefnogaeth. Mae'n dynodi adran mae myfyrwyr yn falch o fod yn rhan ohoni.
Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg	Mae'r wobwr hon yn cydnabod yr aelodau staff ar draws pob adran a rôl sy'n gwneud y profiad ieithyddol a diwylliannol Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn un da iawn. Maen nhw'n hybu'r Gymraeg ym mhopeth maen nhw'n ei wneud ac yn ysbrydoli myfyrwyr i fynd â'r Gymraeg ymhellach.
Athro Ôl-raddedig y Flwyddyn	Nid dim ond ddarlithwyr sy'n cael effaith gadarnhaol ar eich profiad academaidd. Mae llawer o ôl-raddedigion yn ymgymryd â chyfrifoldebau dysgu yn ychwanegol i'w hastudiaethau llawn-amser. Mae'r wobwr hon yn

	<p>rhoi cydnabyddiaeth i fyfyrwr ôl-raddedig sy'n gwneud cyfraniad eithriadol wrth addysgu, arwain seminar neu arddangos.</p>
Tiwtor Personol y Flwyddyn	<p>Mae'r wobwr hon yn rhoi cydnabyddiaeth i diwtor personol sy'n angerddol ynglŷn â helpu myfyrwyr a sicrhau bod eu hamser yn y brifysgol y gorau y gall fod. Mae'r aelod staff yma'n darparu lefelau rhagorol o ofal bugeiliol, cymorth ac arweiniad.</p>
Gwobr Addysgu Creadigol	<p>Mae'r aelod staff yma'n defnyddio dulliau creadigol ac arloesol o ennyn diddordeb myfyrwyr yn eu dysgu. Mae eu defnydd o dechnoleg, adnoddau, neu sut maen nhw'n ymestyn dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, yn eich helpu i ymgysylltu a mwynhau'r pwnc ymhellach, yn ogystal â gwella'ch dealltwriaeth.</p>
Gwobr Cam Nesaf	<p>Gwobr yw hon ar gyfer yr aelod staff mewn unrhyw adran sydd wedi helpu i'ch paratoi ar gyfer bywyd ar ôl y brifysgol. Efallai eu bod wedi'ch helpu i ddod o hyd i gyfleoedd i wella eich datblygiad personol, eich dewisiadau gyrfa neu o ran cyflawni'ch potensial llawn. Byddwch chi'n teimlo'n barod ar gyfer eich antur nesaf o ganlyniad i'r wybodaeth, profiad, amser neu gysylltiadau y maent yn eu defnyddio i helpu â chefnogi eich cam nesaf mewn bywyd.</p>
Gwobr Arwain Cydraddoldeb	<p>Mae'r wobwr hon yn cydnabod aelod o staff neu fyfyrwr sy'n cefnogi cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag fo'u cefndir neu eu sefyllfa bresennol. Maent yn gweithio tuag at sicrhau cynhwysedd a chydaddoldeb i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan helpu i godi ymwybyddiaeth neu greu newid drwy ddigwyddiadau, ymgyrchoedd a gweithgareddau eraill.</p>
Clod Arbennig	<p>Gellir cyflwyno'r wobwr hon os yw'r panel yn dewis gwneud hynny mewn cydnabyddiaeth o waith aelod o gymuned y Brifysgol sydd wedi cyfrannu at brofiad myfyrwyr, ond sydd ddim yn gweddu i un o'r categorïau eraill.</p>